**Ymateb Ysgrifenedig Y Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad i Fynediad i Ddŵr Mewndirol.**

**Awst 2010**

Mae ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad tuag at weithgareddau hamdden dŵr a mynediad cysylltiedig yn seiliedig ar wella mynediad i bawb, yn hytrach nag i unrhyw grŵp defnyddwyr penodol.

Dengys tystiolaeth o ymchwil i faes hamdden ac arolygon o weithgareddau hamdden dŵr yng Nghymru fod cyfranogiad yn y cyfryw weithgareddau ar y cyfan yn achlysurol ac mai prin yw'r defnyddwyr sy'n rhan o grŵp cyfundrefnol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i ystyried yr ystod ehangach bosibl o bobl yn y camau gweithredu a gefnogir ganddi.

Mae argymhellion yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar yr unigolion hynny sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr sy'n ddefnyddwyr mwy profiadol ac ymrwymedig ac sy'n aelodau o glybiau neu gyrff llywodraethu cenedlaethol fel genweirwyr neu ganŵ-wyr. Er ein bod yn derbyn nifer o'r argymhellwn nid ydym yn bwriadu cyfyngu ein gweithgareddau o ran y mater hwn i rai sy'n diwallu anghenion lleiafrif o gyfranogwyr yn unig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi isod ei hymatebion i argymhellion unigol yr Adroddiad:

## <u>Mynediad</u>

**Argymhelliad 1. Bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn annog ac yn hybu'n gryf sefyllfa lle mae tirfeddianwyr yn sefydlu cytundebau mynediad gwirfoddol. Dylai wneud hyn trwy'r grŵp 'Bord Gron' presennol o fuddiannau gweithgareddau dŵr, a mynd ati i annog tirfeddianwyr megis cyrff cyhoeddus (e.e. y Comisiwn Coedwigaeth, awdurdodau lleol) ac elusennau mawr (e.e. yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) i dreialu'r math o gytundebau mynediad a amlinellir yn yr adroddiad hwn.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn prif elfennau'r argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn awyddus i sicrhau mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd ac ymwelwyr â Chymru fwynhau adnoddau dŵr helaeth Cymru yn gyfrifol, yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Mae hyn yn gwbl gyson â'r ymrwymiad yn agenda Cymru'n Un i feithrin ymdeimlad cryfach o berchenogaeth o gefn gwlad Cymru, mannau gwyrdd mewn trefi a dinasoedd a'r arfordir ymysg y cyhoedd.

Cydnabuwyd y gall fod gwrthdaro buddiannau o ran mynediad i ddŵr, felly bwriad gwreiddiol y Ford Gron oedd creu consensws rhwng y buddiannau genweirio a chanŵio, gan eu hannog i gydweithio yn lleol i sicrhau mwy o gytundebau mynediad i afonydd gwirfoddol.

Bwriadwn adeiladu ar lwyddiant y Ford Gron a byddwn yn adolygu ei chylch gorchwyl a'i haelodau i'w chysoni â'r broses o weithredu'r Strategaeth ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Dŵr a sicrhau ei bod yn cynrychioli rhanddeiliaid y Strategaeth.

Fodd bynnag, ni chredwn fod angen cynnal rhagor o gynlluniau peilot o ran cytundebau mynediad. Mae digon o wersi wedi'u dysgu a'u cofnodi eisoes i'w gwneud yn bosibl i wneud cynnydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi adolygiadau a chynlluniau peilot fel rhan o'r broses o lywio'r sefyllfa polisi gyfredol ac felly mae'n credu, erbyn hyn, fod digon o fframweithiau negodi mynediad a chytundebau enghreifftiol ar gael i'r cyhoedd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu hyrwyddo eu defnydd i sicrhau mynediad newydd ystyrlon, yn hytrach nag ychwanegu at lenyddiaeth cytundebau mynediad drwy gynnal rhagor o gynlluniau peilot.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau newydd. Cefnogir y Ford Gron o dan gyllidebau is-adrannol presennol.

**Argymhelliad 2. Bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn sicrhau bod arian Sblash yn targedu'r prosiectau peilot hyn. Dylid monitro effeithiau'r prosiectau peilot yn agos a lledaenu'r deilliannau yn eang.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn bod angen parhau i roi cymorth ariannol i'w gwneud yn bosibl i ddatblygu cytundebau mynediad newydd ac mae'n gweithio i sicrhau bod arian Sblash yn parhau, i'r graddau y gellir gwneud hynny o gofio'r cyfyngiadau cyllidebol presennol.

Defnyddiwyd arian Sblash yn llwyddiannus i gefnogi cytundebau mynediad, ond fe'i defnyddiwyd hefyd i ddarparu cyfleoedd ehangach i gyfranogi mewn gweithgareddau hamdden dŵr. Wrth dderbyn yr argymhelliad hwn, nid ydym yn bwriadu ailganolbwyntio Sblash yn llwyr ar gefnogi cytundebau mynediad gwirfoddol, ond rydym yn bwriadu cadw ei chyfraniad gwerthfawr at gefnogi ein dull o hyrwyddo mynediad i bawb.

Ni chredwn fod angen cynnal rhagor o gynlluniau peilot, fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 1.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ar hyn o bryd. Ariennir Cronfa Sblash ar hyn o bryd drwy gyllidebau is-adrannol presennol.

**Argymhelliad 3. Y ceisir cytundebau mynediad dan gynllun Glastir lle bo'n briodol ar gyfer mannau i fynd i mewn ac allan, unrhyw gyfleusterau cysylltiedig fel meysydd parcio a chyfleusterau newid a mynediad dros dir i unrhyw gorff o ddŵr mewndirol y mae hawliau mynediad wedi'u caniatáu drosto neu arno.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwrthod yr argymhelliad hwn.

Glastir yw'r cynllun rheoli tir integredig newydd i ffermwyr yng Nghymru a fydd yn dod yn weithredol ar 1 Ionawr 2012. Prif amcanion y cynllun yw cefnogi gweithgareddau fferm sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at reoli carbon, dŵr, pridd a chynefinoedd, gwella bioamrywiaeth ac effeithlonrwydd ynni ac ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd.

Darperir Glastir o dan echel 2 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, sy'n ymwneud â gwella'r amgylchedd a chefn gwlad, ac, felly, mae'n rhaid i'r cynllun gydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth alluogi'r UE, sef Rheoliad y Cyngor 1698/2005 yn bennaf.

Rhoddir cymorth drwy gynllun Glastir o dan Erthygl 36a (i-vi) a 36b (i-vii); Erthygl 38; Erthygl 39 ac Erthygl 41 o Reoliad y Comisiwn 1698/2005. O dan yr erthyglau hyn caniateir rhoi cymorth ar gyfer buddsoddiadau nad ydynt yn dwyn elw sydd eu hangen i gyflawni ymrwymiadau'r cynllun neu sy'n cynyddu gwerth amwynder cyhoeddus ardaloedd Natura 2000 ac ardaloedd eraill o werth naturiol uchel ar y fferm. Y bwriad yma yw cefnogi mynediad i ddod â phobl ar ffermydd i werthfawrogi'r gydberthynas rhwng ffermio a'r amgylchedd a reolir.

Mae'r argymhelliad yn cyfeirio at fynediad ar draws fferm a'r potensial ar gyfer darparu meysydd parcio a chyfleusterau newid at ddibenion hamdden sy'n gysylltiedig â chanŵio yn y bôn. Ni chwmpesir yr un o'r rhain gan ddeddfwriaeth yr UE sy'n gymwys i gynllun Glastir.

Yn y cyfamser, mae cronfa Sblash Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn helpu i gefnogi mynediad newydd a chyfleusterau cysylltiedig.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**<u>Ansawdd Amgylcheddol</u>**

**Argymhelliad 4. Yn achos pob cytundeb mynediad, dylid monitro ac asesu ansawdd amgylcheddol y dŵr y mae'r cytundeb yn berthnasol iddo'n rheolaidd.**

**Ymateb: Derbyn yn Rhannol**

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannol dderbyn yr argymhelliad hwn.

Cytunwn â bwriad y datganiad hwn sy'n golygu, yn ôl ein dealltwriaeth ni, na ddylai mynediad newydd gael effeithiau amgylcheddol negyddol ac y dylid defnyddio systemau monitro effeithiol fel rhan o'r gwaith o reoli mynediad. Hefyd ein dehongliad ni o'r argymhelliad hwn yw ei fod yn cyfeirio at fonitro ac asesu ansawdd amgylcheddol dyfroedd mewndirol a glannau dŵr yn gyffredinol, gan gynnwys y dŵr ei hun, nodweddion afon cysylltiedig, cynefinoedd a rhywogaethau.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth nad yw'r rhan fwyaf o afonydd a llynnoedd yn arbennig o sensitif i effeithiau gweithgareddau hamdden, ond y byddai angen mesurau diogelwch i ddiogelu'r lleiafrif bach o safleoedd sy'n sensitif ar hyn o bryd i weithgareddau hamdden a/neu sydd o dan bwysau mawr oherwydd y defnydd a wneir ohonynt at ddibenion hamdden. Felly, dylai'r gwaith o fonitro ansawdd amgylcheddol dargedu ardaloedd sy'n agored i effeithiau yn seiliedig ar sensitifrwydd nodweddion neu'r defnydd a wneir ohonynt. Barn Llywodraeth y Cynulliad yw bod y cytundeb mynediad gwirfoddol yn darparu ar gyfer ystyried natur a dwysedd y gweithgaredd a'r math o gynefin ac amgylchiadau lleol penodol. Dylai'r penderfyniad i fonitro'r ansawdd amgylcheddol gael ei wneud yn lleol gan fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg yn hytrach na gofyniad safonol ar gyfer unrhyw fynediad newydd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

## <u>Deddfwriaeth Newydd</u>

**Argymhelliad 5. Dylid cyflwyno deddfwriaeth i ddynodi awdurdod arweiniol a fydd yn gyfrifol am ddynodi ardaloedd penodol o ddŵr mewndirol lle mae cytundebau mynediad yn briodol ac i drafod telerau cytundebau mynediad gwirfoddol at ddibenion hamdden heb ddefnyddio moduron yn yr ardaloedd hynny. Rhoddir dyletswydd bositif i'r corff hwnnw hwyluso mwy o gytundebau mynediad gwirfoddol, gan gynnwys pŵer i ariannu gwaith cysylltiedig.**

**Argymhelliad 6. Dylai'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn argymhelliad 5 hefyd roi pŵer i awdurdod arweiniol ddynodi cyrff o ddŵr o'r fath fel rhai y byddai hawliau mynediad gorfodol yn berthnasol iddynt os na lwyddwyd i ddod i gytundeb gwirfoddol.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae cysylltiad agos rhwng y ddau argymhelliad hyn, felly mae un ymateb yn briodol.

Derbyniwn y gallai creu pwerau a dyletswyddau statudol o'r math a ddisgrifir fod yn ddefnyddiol wrth sicrhau mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden dŵr. Derbyniwn hefyd awgrym y Pwyllgor nad camau y dylid eu cymryd ar unwaith mo'r argymhellion hyn, ac y dylid eu hystyried yn y tymor canolig neu'r hirdymor. Mae hyn yn gyson â'n dull gweithredu presennol, lle rydym wedi nodi'n glir nad ydym yn bwriadu cyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth ar hyn o bryd, ac y byddem am werthuso llwyddiant y dull gweithredu presennol o ran sicrhau mynediad gwirfoddol cyn penderfynu a oes angen dull gorfodol o sicrhau mynediad.

Ein bwriad yw y bydd y broses o werthuso'r dull gweithredu presennol yn ystyried pa mor llwyddiannus y mae wedi bod wrth sicrhau mynediad digonol a diogel o ansawdd uchel a threfniadau mynediad eglur. Credwn eu bod yn brofion priodol wrth benderfynu a ydym wedi llwyddo i sicrhau'r cyflenwad sydd ei angen i ateb y galw presennol, a darparu'r sail ar gyfer sicrhau'r amrywiaeth o fanteision y gall gweithgareddau hamdden dŵr eu darparu. Dylai llwyddiant neu aflwyddiant y camau gweithredu presennol i roi rhagor o gytundebau mynediad gwirfoddol ar waith ar brif afonydd a dyfroedd eraill yng Nghymru fod yn ffactor wrth benderfynu a fyddai deddfwriaeth yn fuddiol.

Am nad awgrymir y dylid cyflwyno'r argymhellion hyn ar unwaith, mater i Lywodraeth nesaf y Cynulliad fydd ystyried yr angen am unrhyw ddeddfwriaeth bosibl a'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi iddi, ar ôl Mai 2011. Er na fyddai'n briodol i Weinidogion cyfredol geisio rhwymo Llywodraeth yn y dyfodol i gyflwyno deddfwriaeth benodol yn y maes hwn, credwn y dylai'r gwaith o werthuso gwahanol gynigion statudol fod yn seiliedig ar brofion digonolrwydd, ansawdd, diogelwch ac eglurder mynediad. Byddem yn dymuno gweld argymhellion y Pwyllgor yn cael eu hystyried fel un o'r opsiynau wrth ymgynghori ar unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig.

**Goblygiadau ariannol:** Byddai angen asesu'r rhain fel rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw fesurau deddfwriaethol newydd yn y maes hwn.

**Argymhelliad 7. Er mwyn gwarantu cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, byddai angen hawl i wrthwynebu dynodiad a hawl i ystyriaeth fanwl o'r gwrthwynebiad (e.e. mewn ymchwiliad) a byddai angen darpariaeth ar gyfer iawndal am ymyrraeth orfodol ag eiddo (gan gynnwys hawliau pysgota) lle gellid dangos bod yr ymyrraeth honno wedi achosi colled.**

**Ymateb: Derbyn yn Rhannol (mewn egwyddor)**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn y gallai deddfwriaeth o'r math a ddisgrifir yn argymhelliad 6 amharu ar hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gallai dynodi cyrff o ddŵr mewndirol yn rhai y

mae hawliau mynediad cyhoeddus yn berthnasol iddynt effeithio ar hawliau eiddo rhai unigolion ac felly byddai angen sicrhau bod y broses ddynodi a nodir yn y ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â gofynion Erthygl 6(1) y Confensiwn.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn na fyddai angen i ddeddfwriaeth o'r fath ddarparu o reidrwydd ar gyfer iawndal am ymyrraeth orfodol â mwynhad unigolyn o'i eiddo er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.  Mae Erthygl 1 y Protocol Cyntaf yn caniatáu i'r wladwriaeth osod y cyfryw reolaethau gorfodol ar ddefnyddio eiddo ag sy'n angenrheidiol, yn ei thyb hi, er budd cyffredinol. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i'r wladwriaeth sicrhau cydbwysedd teg rhwng hawliau'r unigolyn a'r budd cyffredinol ond fel arfer nid oes angen talu iawndal er mwyn sicrhau'r cydbwysedd hwnnw pan fo'r ymyrraeth ar ffurf rheolaeth ar ddefnydd unigolyn o'i eiddo, yn hytrach na'i amddifadu o'r eiddo hwnnw.

Fodd bynnag, sylwadau cyffredinol yw'r rhain, a byddai angen eu hystyried yn fanylach fel rhan o'r broses o ddatblygu deddfwriaeth yn y maes hwn.

**Goblygiadau ariannol:** Byddai angen asesu'r rhain fel rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw fesurau deddfwriaethol newydd yn y maes hwn.

**Argymhelliad 8. Rydym yn cydnabod nad oes gan Weinidogion Cymru na'r Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i weithredu argymhellion 5-7 ac rydym yn argymell bod cymhwysedd deddfwriaethol o'r fath yn cael ei geisio cyn gynted â phosibl**

**Ymateb:  Derbyn mewn Egwyddor**

Cytunwn nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol ar hyn o bryd i weithredu argymhellion 5 a 6, ac felly y byddai angen iddo gael Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i fewnosod Materion priodol yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, neu fel arall sicrhau bod y cyfryw Faterion yn cael eu mewnosod drwy Ddeddf Seneddol.

Ystyriwn mai'r cyfle addas cyntaf i fynd ati i sicrhau cymhwysedd, neu fyfyrio ar feysydd cymhwysedd newydd, fyddai ar ôl cael gwybod canlyniad refferendwm ar bwerau ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Os bydd mwyafrif o'r pleidleiswyr mewn refferendwm yn pleidleisio o blaid rhoi'r darpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar waith, bydd y Cynulliad yn gallu gwneud darpariaeth yn Neddfau'r Cynulliad sy'n ymwneud ag un neu ragor o'r pynciau a restrir o dan y penawdau yn Rhan 1 o Atodlen 7. Gallai hyn ein galluogi i fynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor. Fodd bynnag, byddai angen i ni ystyried yn ofalus sut y gallai'r eithriadau presennol i Atodlen 7 sy'n ymwneud â “hawliau a rhyddid mordwyo” effeithio ar gynigion deddfwriaethol yn y maes hwn.

**Goblygiadau ariannol:** Byddai angen asesu'r rhain fel rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw fesurau deddfwriaethol newydd yn y maes hwn.

**Rheoleiddio a Gorfodi**

**Argymhelliad 9. Y dylai sefydliadau sy'n gwneud elw o weithgareddau hamdden dŵr dalu ffi i gael eu trwyddedu ac y dylai eu cychod fod wedi'u cofrestru a'u marcio'n glir.**

**Ymateb: Derbyn yn Rhannol**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhannol dderbyn yr argymhelliad hwn.

Cytunwn ei bod yn dderbyniol bod darpariaethau ar gyfer mynediad yn gwahaniaethu rhwng defnydd anffurfiol gan y cyhoedd at ddibenion hamdden a gweithgareddau hamdden sy'n seiliedig ar elw. Fodd bynnag, credwn y dylid ystyried mater trwyddedu, ffioedd a chofrestru fel rhan o drefniadau lleol ac nid ydym yn bwriadu cyflwyno system genedlaethol ar hyn o bryd. Mae'n debyg y bydd costau sefydlu cychwynnol a chostau gweinyddu system genedlaethol ffurfiol yn sylweddol ac na fydd yn ymateb cymesur i'r mater y gallai ymdrin ag ef.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 10. Y dylid cyflwyno system drwyddedu ar gyfer y rheini sy'n defnyddio cychod heb fotor ar ddŵr mewndirol.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae cymhariaeth wedi'i gwneud â genweirio i ddarparu sail resymegol ar gyfer yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn bod refeniw a godir drwy reoli gweithgarwch genweirio yn cyfrannu at reoli, diogelu a gwella dyfroedd a physgodfeydd mewndirol. Ond mae pysgota yn ddarostyngedig i gryn dipyn o reolaethau a deddfwriaeth o ran tynnu pysgod gwyllt o afonydd a gwaith gorfodi cysylltiedig. Telir am y gwaith gorfodi hwnnw yn rhannol drwy ffi'r drwydded bysgota. Nid yw'r drwydded ei hun yn ymwneud yn uniongyrchol â mynediad i afonydd a llynnoedd nac yn darparu ar gyfer mynediad iddynt.

Hefyd, gwerir cryn dipyn o arian ychwanegol o wahanol ffynonellau ar reoli pysgodfeydd a gwella seilwaith mynediad ar gyfer genweirwyr. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad a phrosiect Pysgota Gwyllt Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd, ac felly byddem yn ystyried bod trwyddedu yn ddull rheoli yn hytrach na ffordd o greu un ffynhonnell refeniw ar gyfer gwella mynediad a chyfleusterau.

Yn hyn o beth, nid ydym o'r farn bod system drwyddedu genedlaethol yn opsiwn ymarferol ar gyfer gweithgareddau hamdden dŵr. Ar y cyfan mae cyfranogiad yn y cyfryw weithgareddau yn anffurfiol ac yn achlysurol a fyddai'n golygu bod system drwyddedu yn amhriodol, y gallai atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden dŵr ac y byddai'n anodd ei gweithredu a'i rheoleiddio, yn enwedig pe bai'n ei gwneud yn ofynnol i roi trwyddedau drwy Gorff Llywodraethu Cenedlaethol na fyddai defnyddwyr anffurfiol, achlysurol yn aelodau ohono.

Yn ogystal â'r ffaith nad yw trwyddedu yn ddull rheoli addas ar gyfer y mathau o weithgareddau dan sylw, gallai'r costau sefydlu cychwynnol (neu gostau addasu systemau presennol) a'r costau gweinyddu fod yn sylweddol.

Rydym yn cefnogi trefniadau lleol sy'n bodoli eisoes, er enghraifft: systemau Dyfrffyrdd Prydain ac Asiantaeth yr Amgylchedd lle y rhoddir trwyddedau i unigolion ddefnyddio eu rhwydwaith camlesi a reolir a'u dyfrffyrdd a reolir yn y drefn honno, neu lle mae angen bod yn aelod neu gael trwydded i ddefnyddio cyfleusterau eraill sy'n perthyn i glybiau. Mae hyn yn gyson â dull Llywodraeth y Cynulliad o geisio trefniadau lleol addas yn hytrach na rhagnodi dulliau cenedlaethol newydd o weithredu, ac ystyrir ei fod yn ymateb mwy effeithlon ac effeithiol i'r mater hwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**<u>Gwybodaeth a Chanllawiau</u>**

**Argymhelliad 11. Bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn dechrau'r broses o ddrafftio cod ymddygiad cenedlaethol ar gyfer defnyddio'r dŵr ac ymgynghori arno, i'w ddefnyddio yn yr ardaloedd hynny lle caniateir mynediad.**

**Argymhelliad 12. Y dylai unrhyw god ymddygiad fanylu'n eglur ar hawliau a chyfrifoldebau defnyddwyr a pherchenogion mynediad ac y dylai pob sefydliad sydd a wnelo â chaniatáu neu ddefnyddio mynediad i ddŵr mewndirol, yn ogystal â sefydliadau cenedlaethol fel Llywodraeth Cymru, CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Croeso Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru, ei hybu a'i hysbysebu.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn y ddau argymhelliad hyn.

Gall codau ymddygiad fod yn ddulliau effeithiol a chosteffeithiol o ddylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr dŵr a chytunwn y gallai hyn gael budd o ddull gweithredu cydgysylltiedig yng Nghymru. Mae hon yn rôl a gyflawnwyd gan CCGC o ran y Cod Cefn Gwlad diwygiedig ac mae ganddo Weithgor Codau sefydlog sy'n gyfrifol am ystyried y dulliau gorau o greu codau ymddygiad ar gyfer nifer o weithgareddau a rhoi cyngor arnynt. Daw aelodau'r gweithgor

hwn o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Croeso Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru a Chymdeithas Chwaraeon Cymru. Bwriadwn ofyn i CCGC, ar y cyd â'r gweithgor hwn, weithredu'r argymhellion hyn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau newydd. Er y bydd angen cymorth ariannol i ddatblygu a hyrwyddo cod newydd, mae'r asiantaethau eisoes yn gyfrifol am y maes hwn a gellir ei weithredu o dan eu cytundebau nawdd presennol.

**Argymhelliad 13. Y dylid sefydlu gwefan genedlaethol yn cynnwys manylion am yr holl ddarnau o ddŵr yng Nghymru lle cytunwyd ar fynediad, ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lefelau dŵr cyfredol a disgwyliedig, digwyddiadau sy'n mynd rhagddynt a allai gyfyngu ar fynediad ac unrhyw wybodaeth arall a fyddai'n helpu defnyddwyr i gyrchu'r dŵr yn ddiogel ac yn anghyfreithlon.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd gwybodaeth ar y we am y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden dŵr yng Nghymru yn adnodd gwerthfawr. Mae hwn eisoes yn ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu ar Weithgareddau Hamdden Dŵr ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a CCGC eisoes yn gyfrifol am ddarparu'r adnodd hwn eleni.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau newydd. Mae gwybodaeth eisoes ar gael a defnyddir gwefan sy'n bodoli eisoes.